

Adroddiad i	Y Pwyllgor Archwilio
Dyddiad	21 Medi 2026
Swyddog Arweiniol	Helen MacArthur, Prif Swyddog Tân Cynorthwyol, Cyllid ac Adnoddau
Swyddog Cyswllt	Angharad Ellis (MIAA)
Pwnc	Adroddiad Cynnydd Archwiliad Mewnol Chwarterol 2026/27



PWRPAS YR ADRODDIAD

- 1 Pwrpas yr adroddiad hwn yw rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r Aelodau am y gwaith a wnaed gan MIAA, darparwyr archwilio mewnol Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru (yr Awdurdod), ar gyfer blwyddyn ariannol 2026/27 hyd at 31 Awst 2026.

CRYNODEB GWEITHREDOL

- 2 Mae'n ofynnol i'r Awdurdod roi trefniadau ar waith ar gyfer archwilio systemau rheoli. MIAA yw'r archwilwyr mewnol penodedig, ac mae ei waith yn cael ei lywodraethu gan y Safonau Archwilio Mewnol Byd-eang fel sy'n berthnasol i'r sector cyhoeddus.
- 3 Mae'r adroddiad a gynhwysir yn Atodiad 1 yn rhoi trosolwg o'r gwaith a wnaed yn ystod blwyddyn ariannol 2026/27 yn erbyn y cynllun archwilio mewnol y cytunwyd arno.
- 4 Mae'r adroddiad a gynhwysir yn Atodiad 2 yn rhoi diweddariad o'r cynnydd a wnaed wrth weithredu'r argymhellion y cytunwyd arnynt sy'n deillio o adroddiadau blaenorol.

ARGYMHELLION

- 5 Argymhellir bod yr Aelodau yn:
 - i) **Nodi'r gwaith a wnaed gan MIAA yn ystod 2026/27; a**
 - ii) **Nodi'r cynnydd a wnaed wrth weithredu'r argymhellion y cytunwyd arnynt.**

CEFNDIR

- 6 Mae Rheoliadau Cyfrifon ac Archwilio (Cymru) 2014 (y Rheoliadau) yn ei gwneud yn ofynnol i'r Awdurdod wneud trefniadau priodol ac effeithiol ar gyfer systemau rheoli mewnol. Mae hyn yn cynnwys y trefniadau ar gyfer rheoli risg a rheolaeth ariannol ddigonol ac effeithiol.
- 7 Mae'r Rheoliadau hefyd yn ei gwneud yn ofynnol i gynnal archwiliad mewnol digonol ac effeithiol o'r systemau rheoli mewnol, ac mae'n rhaid hysbysu Aelodau'r Awdurdod am ganfyddiadau'r archwiliad. Mae'n ofynnol i'r Awdurdod gymeradwyo'r Datganiad Rheolaeth Fewnol yn flynyddol.

GWYBODAETH

- 8 Mae'r adroddiad a gynhwysir yn Atodiad 1 yn rhoi trosolwg o'r gwaith a wnaed yn ystod 2026/27 o'i gymharu â'r cynllun blynyddol a gymeradwywyd.
- 9 Mae'r adroddiad sydd wedi'i gynnwys yn Atodiad 2 yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf am y cynnydd a wnaed wrth weithredu'r argymhellion o adroddiadau blaenorol.

GOBLYGIADAU

Amcanion Llesiant	Mae gweithredu systemau ariannol sy'n cael eu rheoli'n briodol yn cefnogi'r gwaith o gyflawni'r amcanion llesiant a chynaliadwyedd gwasanaethau yn y tymor hwy.
Cyllideb	Mae sicrwydd ynghylch bodolaeth a gweithrediad rheolaethau mewnol yn cefnogi'r broses ar gyfer pennu cyllideb yn effeithiol.
Cyfreithiol	Mae trefniant archwilio mewnol effeithiol yn un o ofynion Rheoliadau Cyfrifon ac Archwilio (Cymru) 2014.
Staffio	Mae adolygu systemau ariannol allweddol gan gynnwys y gyflogres yn rhoi sicrwydd bod rheolaethau yn bresennol a bod taliadau yn unol â pholisïau a gweithdrefnau y cytunwyd arnynt.
Cydraddoldeb/ Hawliau Dynol/ Y Gymraeg	Mae arweinydd ymgysylltu MIAA yn ddwyieithog a bydd yr adroddiadau'n mynd trwy'r prosesau cyfieithu arferol.
Risgiau	Mae cynnal archwiliad mewnol o'r prosesau ariannol craidd yn cynorthwyo i nodi a rheoli risgiau yn effeithiol.